

## Cytundeb Perthynas / Relationship Agreement

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAb) a Phrifysgol Aberystwyth (PA) yn ymrwmo i berthynas sy'n seiliedig ar y deg egwyddor ganlynol:

### 1. STRATEGOL

Mae'r bartneriaeth yn ysgogi cyfeiriad strategol y ddau gorff, gyda'r nod cytunedig o ddarparu profiad myfyrwyr sydd gyda'r gorau yn y Deyrnas Unedig.

### 2. CANOLI AR Y MYFYRIWR

Mae'r ddau yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a gwella profiad myfyrwyr o'r byd academiaidd a gweithgareddau allgyrsiol.

### 3. PARCHUS AC AGORED

Cyd-ddealltwriaeth o'r rôl unigryw sydd gan PA ac UMAber fel ei gilydd i 'w chwarae, a'r gwerth mae'r ddau yn ei gyfrannu i'r bartneriaeth, gan gynnwys cyfathrebu yn llawn, yn agored ac yn rheolaidd, a chynnal cyfarfodydd ynglŷn â materion perthnasol i UMAber a'r corff myfyrwyr.

### 4. CYNRYCHOLAETH

Mae PA yn cydnabod mai UMAber yw prif lais y myfyrwyr ac fe fydd yn sicrhau bod ymgynghori amserol gydag UMAber cyn cymryd penderfyniadau sy'n effeithio ar fyfyrwyr.

### 5. CEFNOGAETH

Ymrwymiad amlwg tuag at sicrhau bod y berthynas yn gweithio a chyfrannu i wella gwaith i ddau gorff.

### 6. CYLLID

Bydd y partneriaid yn ystyried y gwasanaethau a'r cyfleoedd hanfodol a ddarperir gan UMAber ac yn cytuno ar gyllid a fydd yn cynnal, datblygu a gwella profiad blaenllaw i'r myfyrwyr.

### 7. ANNIBYNAETH

Cydnabod annibyniaeth a gwerth UMAber sy'n gryf ac wedi'i arwain gan fyfyrwyr.

### 8. CYDRADDOLDEB

Rhannu ymdeimlad cryf o gydraddoldeb ac amrywioldeb ynghyd â pharhau i drin myfyrwyr a staff yn deg.

### 9. YMGYSYLLTU

Ymrwymiad i wrando ar lais myfyrwyr ledled y profiad a gynigir yn Aberystwyth.

### 10. ATEBOLRWYDD

Atebolrwydd UMAber i PA fel arolygydd o dan Ddeddf Addysg 1994 ac fel y prif ariannwr yn unol â thelerau memorandwm cytundeb.

Aberystwyth University Students' Union (AberSU) and Aberystwyth University (AU) are committed to a relationship based on the following ten principles:

### 1. STRATEGIC

The partnership informs the strategic direction of both parties with an agreed goal of delivering a UK-leading student experience.

### 2. STUDENT-CENTRED

Both recognise the importance of developing and improving students' experience of academia and extra-curricular activities.

### 3. RESPECTFUL AND OPEN

A mutual understanding of the distinct role that both AU and AberSU play and the value that both bring to the partnership, including full, open and regular communications and meetings on issues relevant to AberSU and the student body.

### 4. REPRESENTATION

AU recognises that AberSU is the primary voice of students and will ensure that AberSU is consulted in a timely fashion before decisions are taken which impact on students.

### 5. SUPPORT

Demonstrable commitment to making the relationship work and contributing to the enhancement of the work of both parties.

### 6. FUNDING

The partners will consider the vital services and opportunities provided by AberSU and agree funding that will sustain, develop and enhance a leading student experience.

### 7. INDEPENDENCE

Recognising the independence and value of a strong, student-led AberSU.

### 8. EQUALITY

Sharing a strong sense of equality and diversity coupled with the continued fair treatment of both students and staff.

### 9. ENGAGEMENT

The commitment to engage a student voice that resonates throughout the whole Aberystwyth experience.

### 10. ACCOUNTABILITY

Accountability of AberSU to AU as supervisor under the 1994 Education Act and as a principal funder within the terms of a memorandum of agreement.

*Aisleen Sturrock*

Aisleen Sturrock  
Llywydd, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth  
President, Aberystwyth University Students' Union



Yr Athro / Professor Elizabeth Treasure  
Is-Ganghellor / Vice-Chancellor  
Prifysgol Aberystwyth University